Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Egwyddorion llywodraethu a darpariaethau ategol

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Comisiwn y Senedd yn cefnogi'r Senedd er mwyn helpu i hwyluso ei llwyddiant hirdymor fel sefydliad democrataidd a deddfwrfa gref, hygyrch, cynhwysol a blaengar sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... 4
**Adran A: Arweinyddiaeth** .......... 7
**Adran B: Effeithiolrwydd** .......... 11
**Adran C: Atebolrwydd** .......... 13
**Adran D: Llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol** .......... 15
**Adran E: Taliadau** .......... 18
**Adran F: Cysylltiadau ag Aelodau o'r Senedd** .......... 20

# Cyflwyniad

**1.** Llywodraethu corfforaethol yw'r ffordd y mae sefydliadau'n cael eu cyfarwyddo, eu rheoli a'u harwain. Mae'n diffinio cydberthnasau a'r modd y caiff hawliau a chyfrifoldebau eu dosbarthu ymhlith y rhai sy'n gweithio yn y sefydliad a chydag ef, yn penderfynu ar y rheolau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir i bennu amcanion y sefydliad, ac yn darparu'r dull o gyflawni'r amcanion hynny ac o fonitro perfformiad. Yn bwysig ddigon, mae'n diffinio pwy sydd ag atebolrwydd ar draws y sefydliad.

**2.** Mae Comisiwn y Senedd (y Comisiwn) wedi'i sefydlu fel corff corfforaethol i ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau sy'n angenrheidiol i gefnogi diben y Senedd a'i Haelodau. Mae hyn yn cynnwys bod yn gyfrifol am y trefniadau llywodraethu i hwyluso gweithrediad effeithiol y Comisiwn i gyflawni ei nodau a'i amcanion strategol.

**3.** Mae Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi'r egwyddorion y dylid arfer swyddogaethau'r Comisiwn yn unol â hwy. Sef:

- Rhaid i Gomisiwn y Senedd wneud trefniadau priodol o ran cadarnhau bod ei swyddogaethau'n cael eu harfer gan ystyried yr egwyddor y dylid sicrhau cyfle cyfartal i bawb.
- Wrth arfer swyddogaethau Comisiwn y Senedd, rhaid rhoi sylw priodol i'r egwyddor o hyrwyddo datblygu cynaliadwy.
- Wrth arfer swyddogaethau Comisiwn y Senedd, rhaid rhoi effaith, cyn belled ag sy'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, i'r egwyddor y dylai'r iaith Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal.

**4.** Ochr yn ochr â'r gofynion deddfwriaethol mae Fframwaith Llywodraethu'r Comisiwn. Mae'r Fframwaith hwn, sy'n cynnwys y strwythurau, systemau, prosesau, polisïau, rheolau, gweithdrefnau, diwylliant a gwerthoedd sy'n cyfeirio a rheoli'r Comisiwn, yn ganolog i weithrediad effeithiol y sefydliad.

**5.** Corfforaeth nad yw'n gwneud elw yw Comisiwn y Senedd, ond mae angen iddo weithredu fel busnes a hynny yn unol ag egwyddorion cydnabyddedig llywodraethu da:

- arweinyddiaeth – mynegi gweledigaeth glir ar gyfer y sefydliad a dangos yn eglur sut y mae gweithgareddau'n cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth hon, gan gynnwys pennu'r parodrwydd i dderbyn risg a rheoli risg;

- effeithiolrwydd – defnyddio amrywiaeth eang o brofiadau perthnasol, gan gynnwys drwy gynnig her gadarn, a chraffu ar berfformiad;
- atebolrwydd – hyrwyddo tryloywder drwy ddulliau adrodd clir a theg; a
- cynaliadwyedd – llunio barn synhwyrol ar gyfer yr hirdymor am yr hyn y mae'r sefydliad yn ceisio'i gyflawni a'r hyn y mae'n ei wneud i gyrraedd ei nod.

**6.** Yn unol â hyn a'i Fframwaith Llywodraethu, mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu'r egwyddorion a'r darpariaethau ategol a nodir yn y ddogfen hon. Yn ogystal ag ymdrin â'r elfennau arweinyddiaeth, effeithiolrwydd ac atebolrwydd a nodir uchod, maent hefyd yn amlinellu trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth fewnol; taliadau i Aelodau o'r Senedd, deiliaid swyddi ac uwch reolwyr; a chysylltiadau ag Aelodau o'r Senedd. Gyda'i gilydd, bwriedir iddynt helpu i feithrin diwylliant o weithredu effeithiol ym mhob rhan o'r sefydliad a fydd, yn eu tro, yn helpu'r Comisiwn i gyflawni ei nodau a'i amcanion a'r broses o reoli risgiau busnes allweddol.

**7.** Mae'r egwyddorion a'r darpariaethau ategol hyn, a ddefnyddir i lywio gwaith y Comisiwn a'i staff, yn gyson ag elfennau perthnasol y codau llywodraethu a ganlyn, gydag amrywiadau sy'n briodol ar gyfer sefydliad seneddol:

- Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU, a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd Ariannol; a
- Chod Arfer Da Llywodraethu Corfforaethol mewn adrannau llywodraeth ganolog, a gyhoeddir ar y cyd gan Drysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet.

**8.** Maent hefyd yn ystyried y Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus.

**9.** O ran ymddygiadau i gefnogi'r egwyddorion hyn a'r darpariaethau ategol, mae'r Codau Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd a staff y Comisiwn yn nodi pwysigrwydd cadw at y saith egwyddor bywyd cyhoeddus (Egwyddorion Nolan)[1].

[1] https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life

Mae'r rhain yn hyrwyddo diwylliant o fod yn agored ac uniondeb. Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd sydd wedi'i ddiweddaru ar gyfer y Chweched Senedd hefyd yn cynnwys wythfed egwyddor o barch yn unol â pholisïau'r Comisiwn ar urddas a pharch.

**10.** Dylid adolygu'r egwyddorion hyn a'r darpariaethau ategol o bryd i'w gilydd er mwyn ystyried unrhyw newidiadau i drefniadau llywodraethu a/neu godau a chanllawiau wedi'u diweddaru.

# Adran A: Arweinyddiaeth

## A.1 Rôl y Comisiwn

**11.** Y Comisiwn sy'n gyfrifol am lwyddiant hirdymor y Senedd, ac sy’n ei helpu i'w gwneud yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn ddeddfwrfa sy'n cyflawni'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

**12.** Y Comisiwn (sy’n cael ei gadeirio gan y Llywydd) a’r Comisiynwyr sy’n gyfrifol am drefniadau llywodraethu’r sefydliad ac maent yn atebol i’r Senedd. Mae cyfrifoldebau’r Comisiynwyr fel y “bwrdd llywodraethu” yn cynnwys gosod nodau strategol y sefydliad, darparu'r arweinyddiaeth i'w rhoi ar waith, goruchwylio'r ffordd y caiff y nodau strategol eu cyflawni a chyflwyno adroddiadau, a bod yn atebol i'r Senedd ynglŷn â sut y mae’n gwarchod ei asedau.

**13.** Mae gan y Comisiynwyr gyfrifoldeb ar y cyd dros benderfyniadau, ac mae ganddynt statws cyfartal mewn trafodaethau. Dylai'r Llywydd, Comisiynwyr eraill a chynghorwyr annibynnol herio Comisiynwyr unigol:

- os nad ydynt yn parchu her adeiladol gan eraill;
- os nad ydynt yn cefnogi’r cyfrifoldeb ar y cyd hwn am gyflawni diben y sefydliad;
- os nad ydynt yn gweithio gyda’i gilydd i gyflawni’r canlyniadau a fwriedir ar gyfer y Senedd a phobl Cymru; ac
- os yw’n ymddangos eu bod yn gweithredu er budd y grŵp gwleidyddol y maent yn gysylltiedig ag ef yn unig, yn hytrach nag er budd y Senedd yn ei chyfanrwydd.

### Egwyddorion

- Dylai’r Comisiwn bennu nodau strategol y sefydliad, a darparu eglurder strategol.
- Rôl y Senedd yw darparu arweinyddiaeth i'r sefydliad o fewn fframwaith o reolaethau doeth ac effeithiol, sy'n golygu y gellir asesu risg a'i rheoli.
- Dylai’r Comisiwn sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael, fel y gall y sefydliad gyflawni ei amcanion a sicrhau bod cynlluniau ar waith i ddiwallu anghenion y presennol ac anghenion yn y dyfodol.

- Dylai'r Comisiwn sicrhau bod gwybodaeth reoli a pherfformiad gadarn, glir a chyson ar gael i helpu i ysgogi gwelliant parhaus, a dylai'r Comisiwn hefyd adolygu perfformiad rheolwyr yn rheolaidd.

- Mae cyfraniad y Comisiynwyr fel arweinwyr yn bwysig wrth helpu i sefydlu diwylliant y sefydliad. Dylent weithredu yn unol â saith egwyddor bywyd cyhoeddus (egwyddorion Nolan) a pholisïau ynghylch urddas a pharch, ac arwain drwy esiampl er mwyn annog ymddygiad da ym mhob rhan o'r sefydliad. Dylai'r Comisiwn hefyd sicrhau bod polisïau ac arferion yn gyson â gwerthoedd y sefydliad.

- Dylai Comisiynwyr hefyd gadw at y Rheolau ar gyfer cynnal busnes gan Gomisiwn y Senedd.

- Rhaid i Gomisiynwyr weithredu ar y cyd o ran yr hyn y maent yn ei ystyried sydd er budd pennaf y Senedd, gan fod yn gyson ag unrhyw rwymedigaethau statudol.

### Darpariaethau

- Dylai’r Comisiwn gyfarfod yn ddigon rheolaidd i gyflawni ei ddyletswyddau’n effeithiol.

- Dylai’r adroddiad blynyddol gynnwys datganiad ar sut y mae’r Comisiwn yn gweithredu, gan gynnwys datganiad lefel uchel ynghylch pa fathau o benderfyniadau sy’n cael eu gwneud gan y Comisiwn a pha fathau y dylid eu dirprwyo i reolwyr. Dylai'r adroddiad blynyddol nodi nifer y cyfarfodydd a gaiff eu cynnal gan y Comisiwn a phresenoldeb unigol gan y Comisiynwyr.

- Dylai'r Comisiwn sicrhau bod dulliau ar waith ar gyfer cofnodi a datgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau.

## A.2 Dosbarthu cyfrifoldebau

### Egwyddor

- Dylai cyfrifoldebau’r Comisiwn gael eu gwahanu’n glir oddi wrth rai rheolwyr gweithredol busnes y sefydliad.

### Darpariaeth

- Dylid sefydlu'n glir a chytuno sut y caiff cyfrifoldebau'r Comisiwn (a'r Llywydd fel ei Gadeirydd) eu gwahanu oddi wrth gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a'r Clerc.
- Dylai'r Prif Weithredwr a'r Clerc a swyddogion priodol fynychu cyfarfodydd y Comisiwn i gyflwyno cynigion a darparu cyd-destun a gwybodaeth i ganiatáu i'r Comisiwn wneud penderfyniadau gwybodus.
- Dylid sicrhau bod deialog reolaidd yn cael ei chynnal hefyd rhwng y Prif Weithredwr a'r Clerc, y Llywydd a'r Comisiynwyr ynglŷn â materion pwysig.

## A.3 Y Llywydd

### Egwyddorion

- Mae'r Llywydd yn gyfrifol am arweinyddiaeth y Comisiwn a sicrhau ei fod yn effeithiol ym mhob agwedd ar ei rôl.
- Mae'r Llywydd yn gyfrifol am sicrhau bod digon o amser ar gael i drafod yr holl eitemau ar yr agenda, a materion strategol yn benodol. Dylai'r Llywydd hefyd hyrwyddo diwylliant o fod yn agored, ac o drafod, drwy hwyluso cyfraniad effeithiol gan gynghorwyr annibynnol (gweler A.4 isod) , a sicrhau y caiff cysylltiadau adeiladol eu meithrin.
- Dylai'r Llywydd hwyluso dulliau cyfathrebu effeithiol ag Aelodau o'r Senedd a sicrhau bod hynny'n digwydd (gweler Adran E).
- Dylai'r Llywydd yn bersonol roi cyfrif yn yr adroddiad blynyddol ynghylch sut y rhoddwyd ar waith yr egwyddorion sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth ac effeithiolrwydd y Comisiwn.

## A.4 Cynghorwyr annibynnol

### Egwyddorion

- Dylai'r Comisiwn benodi cynghorwyr annibynnol anweithredol sydd â chymwysterau a phrofiad addas i sicrhau bod Comisiynwyr a thîm gweithredol y Comisiwn yn cael eu herio mewn modd adeiladol a sicrwydd bod trefniadau llywodraethu yn gywir, yn effeithiol ac yn briodol.

- Dylai cynghorwyr annibynnol ddarparu cyngor arbeinigol a chymorth, a herio rheolwyr o ran cyflawni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt. Fel rhan o'u rôl, dylent fodloni eu hunain o ran uniondeb y wybodaeth ariannol sydd ar gael a bod rheolaethau a systemau rheoli risg ariannol yn gadarn a bod modd eu hamddiffyn.

## Darpariaeth

- Dylai Comisiynwyr fod yn rhan o'r broses o benodi cynghorwyr annibynnol.
- Dylai'r Comisiwn ystyried gwahodd cynghorwyr annibynnol i'w gyfarfodydd lle bo hynny'n briodol i ddarparu cyngor, cefnogaeth a her.
- Dylai gweithdrefnau a mesurau diogelu fod ar waith i sicrhau bod unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau a allai fod gan gynghorwyr annibynnol yn cael eu cofnodi a'i ddatgan yn briodol.
- Pan fydd cynghorwyr annibynnol yn pryderu, i'r graddau na ellir datrys y pryderon hynny, am y modd y caiff y sefydliad ei redeg neu am gamau y bwriedir eu cymryd, dylent sicrhau bod eu pryderon yn cael eu cofnodi. Pan fydd yn ymddiswyddo, dylai cynghorwr annibynnol ddarparu datganiad ysgrifenedig i'r Comisiwn os oes ganddo unrhyw bryderon o'r fath.

# Adran B: Effeithiolrwydd

## B.1 Ymrwymiad

### Egwyddor

- Dylai Comisiynwyr a chynghorwyr annibynnol sicrhau bod trefniadau ar waith a bod digon o amser yn cael ei neilltuo i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol.

### Darpariaeth

- Dylai'r Comisiwn wneud trefniadau i werthuso ei effeithiolrwydd o bryd i'w gilydd. Fel lleiafswm, dylai hyn gynnwys enghreifftiau o arfer da a'r gwersi a ddysgwyd.

## B.2 Datblygiad

### Egwyddorion

- Dylai Comisiynwyr a chynghorwyr annibynnol newydd gael cyfnod cynefino priodol wrth eu penodi.
- Dylai uwch-reolwyr ddarparu'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer unrhyw ofynion priodol o ran datblygu neu hyfforddi sydd gan Gomisiynydd neu gynghorwr annibynnol.
- Er mwyn gweithio'n effeithiol, mae angen gwybodaeth briodol am y sefydliad a mynediad at ei weithrediadau a'i staff ar bob Comisiynydd a chynghorwr annibynnol.

## B.3 Gwybodaeth a chymorth

### Egwyddorion

- Dylai'r Comisiwn, mewn modd amserol, gael gwybodaeth ar ffurf ac o ansawdd sy'n briodol i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau.
- Y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac Aelodau sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Comisiynwyr yn cael gwybodaeth gywir, amserol a chlir.
- Mae cyfrifoldebau'r Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac Aelodau yn cynnwys sicrhau bod gwybodaeth yn llifo'n dda yn y Comisiwn a rhwng uwch-reolwyr a chynghorwyr annibynnol, yn ogystal â hwyluso

hyfforddiant cynefino a chynorthwyo gyda gweithgareddau datblygu eraill a allai fod yn ofynnol.

## Darpariaethau

- O dan gyfarwyddyd y Prif Weithredwr a'r Clerc, mae cyfrifoldebau'r Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac Aelodau yn cynnwys:

- datblygu a chytuno ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn gyda'r Llywydd, gan sicrhau bod yr holl eitemau perthnasol yn cael eu dwyn i sylw'r Comisiwn;
- sicrhau bod gwybodaeth yn llifo'n dda yn y Comisiwn a rhwng uwch-reolwyr a chynghorwyr annibynnol;
- herio papurau a gwybodaeth a sicrhau eu hansawdd;
- sicrhau bod papurau yn dod i law'r Comisiynwyr yn unol ag amserlen a gytunwyd;
- darparu cyngor a chefnogaeth ar faterion llywodraethu a helpu i weithredu gwelliannau yn y strwythur a'r trefniadau Llywodraethu.
- sicrhau bod y Comisiwn yn dilyn y drefn briodol ac yn cynghori ar y Rheolau ar gyfer Cynnal busnes gan Gomisiwn y Senedd; a
- chofnodi penderfyniadau'r Comisiwn yn gywir, a sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cyflawni.

# Adran C: Atebolrwydd

## C1. Bod yn atebol i'r Senedd

### Egwyddorion

- Mae'r Comisiynwyr yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau statudol y Comisiwn ac maent yn atebol i'r Senedd. Mae ganddynt ddyletswydd i'r Senedd i fod yn gyfrifol am holl bolisïau, penderfyniadau a gweithredoedd y sefydliad, ac i gael eu dwyn i gyfrif amdanynt.
- Y Prif Weithredwr a'r Clerc yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn yn rhinwedd Adran 138 o Ddeddf 2006. Mae'n bersonol gyfrifol ac atebol i'r Senedd am drefniadaeth y Comisiwn ac ansawdd y gwaith rheoli, gan gynnwys ei ddefnydd o arian cyhoeddus a sut y mae'n gwarchod ei asedau.

### Darpariaethau

- Caiff y Comisiynwyr ddyrannu cyfrifoldeb am oruchwylio ystod ddiffiniedig o waith sefydliadol i Gomisiynydd unigol.
- Dylid cofnodi pa rai o swyddogaethau'r Comisiwn a ddirprwywyd i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, a dylid nodi'n eglur unrhyw eithriadau ac unrhyw beth a gedwir yn ôl.
- Amlinellir dyletswyddau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu mewn llythyr dynodi a gyhoeddir gan Drysorlys EM. Dylai'r Swyddog Cyfrifyddu ddyrannu cyfrifoldebau'n glir ymhlith swyddogion a chofnodi hynny, ond mae'n cadw cyfrifoldeb personol cyffredinol ac atebolrwydd i'r Senedd am:

- briodoldeb a rheoleidd-dra;
- gweinyddu doeth a darbodus;
- osgoi gwastraff ac afradlondeb;
- sicrhau gwerth am arian, o ran bloc Cymru ac yn fwy eang ar gyfer y Trysorlys yn ei gyfanrwydd, nid dim ond ar gyfer y Comisiwn;
- defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn effeithlon ac effeithiol; a
- threfnu, staffio a rheoli'r Comisiwn.

- Os bydd y Prif Swyddog Cyfrifyddu yn cael cyfarwyddyd gan y Comisiwn, neu'r Llywydd yn gweithredu ar ei ran, i gymryd camau gweithredu y mae'n credu eu bod yn groes i'w gyfrifoldebau personol, rhaid iddo ofyn am gyfarwyddyd ysgrifenedig gan y Comisiwn. Ni chaiff ddibynnu ar gofnodion y Comisiwn yn lle cyfarwyddyd ysgrifenedig ffurfiol. Bydd cyfarwyddiadau o'r fath yn cael eu hanfon ymlaen at yr Archwilydd Cyffredinol, a fydd, fel arfer, yn dwyn y mater i sylw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.
- Gallai pob cyfarwyddyd o'r fath fod yn destun datgeliad cyhoeddus o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 pe bai cais priodol yn cael ei wneud.

## C2. Atebolrwydd i'r cyhoedd

### Egwyddorion

- Felly, mae’r Senedd, a phobl Cymru y mae’n eu cynrychioli, yn rhanddeiliaid allweddol, ac mae’n ddyletswydd ar y Comisiwn i ymgysylltu â hwy er mwyn sicrhau ei fod yn darparu gwasanaeth o’r safon uchaf posibl.

### Darpariaethau

- Dylid datblygu a chynnal strategaethau ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu â'r cyhoedd.
- Dylid cynnwys manylion ar gyflawni yn erbyn nodau ac amcanion y Comisiwn a'r defnydd o adnoddau yn yr adroddiad a chyfrifon blynyddol.
- Dylai'r Prif Swyddog Cyfrifyddu lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn amlinellu sicrwydd ar effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r Comisiwn wrth gyflawni ei nodau a'i amcanion strategol. Dylid cyhoeddi'r datganiad hwn fel rhan o'r adroddiad a chyfrifon blynyddol.

# Adran D: Llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol

## D1. Llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol

### Egwyddorion

- Dylai'r Comisiwn a'r Prif Weithredwr a'r Clerc sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol.
- Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr a'r Clerc yn gyfrifol am adrodd ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a fydd yn cael ei gyhoeddi gydag adroddiad a chyfrifon blynyddol y Comisiwn.

### Darpariaeth

- Dylai'r Comisiwn nodi ei awydd am risg a phennu natur a graddau'r risgiau y mae'n barod i'w cymryd er mwyn cyflawni ei amcanion hirdymor.
- Dylai'r Prif Weithredwr a'r Clerc fod yn sicr ynddo'i hun ynghylch effeithiolrwydd fframweithiau'r sefydliad ar gyfer llywodraethu a rheoli risg a'i drefniadau rheolaeth fewnol. Dylai sicrhau:

- bod fframwaith priodol o reolaethau doeth ac effeithiol ar gael, fel y gellir asesu a rheoli risgiau, a chymryd risgiau'n bwyllog;
- bod atebolrwydd clir ar gyfer rheoli risgiau; a
- bod swyddogion yn meddu ar y sgiliau ac yn cael yr arweiniad angenrheidiol i gyflawni'r rolau a bennwyd iddynt yn effeithiol ac yn effeithlon.

## D2. Archwilio mewnol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

### Egwyddor

- Dylai'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gael eu cefnogi gan:
- gwasanaeth archwilio mewnol sy'n gweithredu'n unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, o dan gadeiryddiaeth cynghorwr annibynnol sydd â phrofiad addas.

## Darpariaethau

- Dylai'r Pennaeth Archwilio Mewnol gael ei wahodd o dro i dro i ddod i gyfarfodydd uwch-reolwyr, lle mae materion allweddol yn cael eu trafod yn ymwneud â llywodraethu, rheoli risg neu reolaeth fewnol.
- Dylai'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gael eu cefnogi gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, sy'n cynnwys o leiaf dri chynghorwr annibynnol, a dylai un ohonynt fod yn gadeirydd arno. Dylai o leiaf un o aelodau'r pwyllgor hwn, ond yn ddelfrydol rhagor na hynny, feddu ar brofiad ariannol diweddar a pherthnasol. Dylai Comisiynydd sy'n gyfrifol am lywodraethu a chyllid hefyd fod yn aelod o'r Pwyllgor. Dylai'r Comisiynydd adrodd yn ôl i'r Comisiwn yn dilyn pob cyfarfod o'r Pwyllgor.
- Ni ddylai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fod ag unrhyw gyfrifoldebau gweithredol ac ni ddylai fod yn gyfrifol am wneud na chymeradwyo unrhyw benderfyniadau. Dylai gymryd gofal i barhau'n annibynnol. Dylai'r Pwyllgor gael ei sefydlu, a dylai weithredu yn unol â Llawlyfr Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Trysorlys EM.
- Dylai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg adolygu pa mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw'r sicrwydd a geir ynghylch materion llywodraethu, risg a rheolaeth fewnol, ac a yw'n bodloni anghenion y Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu.
- Rôl i'r Comisiwn a'r uwch-reolwyr yw cynghori ar risgiau allweddol. Dylai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gefnogi'r rôl hon, fodd bynnag.
- Dylai'r Pwyllgor hefyd roi sicrwydd ynglŷn ag annibyniaeth archwilio mewnol ac allanol.
- Cyhoeddir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol gyda'r adroddiad blynyddol a chyfrifon. Wrth ei baratoi, dylai'r Prif Swyddog Cyfrifyddu asesu'r risgiau sy'n wynebu'r sefydliad, a sicrhau bod ei systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg yn effeithiol. Dylai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gefnogi'r asesiad hwn.
- Dylai cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, gan gynnwys ei rôl a'i gyfrifoldebau, fod ar gael i'r cyhoedd ei weld. Dylai'r Pwyllgor

gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Comisiwn, a ddylai adrodd yn flynyddol ar waith y Pwyllgor yn ei adroddiad blynyddol i'r Senedd.

- Yn unol ag arfer da, dylid gwerthuso effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o bryd i'w gilydd.

# Adran E: Taliadau

## E.1 Aelodau

### Egwyddorion

- Mae'r Bwrdd Taliadau ('y Bwrdd') yn Fwrdd annibynnol a sefydlwyd gan y Senedd. Nod y Bwrdd yw sicrhau bod Aelodau o'r Senedd yn cael eu talu'n briodol ac yn cael yr adnoddau ariannol angenrheidiol i weithredu'n effeithiol mewn sefydliad seneddol modern.
- Mae'n bwysig bod y Comisiwn a'r Bwrdd Taliadau yn cyfathrebu a chynnal sgyrsiau rheolaidd. Mae hyn er mwyn cydnabod rolau statudol a rhyng-ddibyniaeth y ddau gorff o ran darparu cymorth a gwasanaethau i Aelodau o'r Senedd.

### Darpariaethau

- Nid yw'r Bwrdd yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd na rheolaeth y Senedd na'r Comisiwn. Mae penderfyniadau'r Bwrdd yn derfynol, ac nid ydynt yn gorfod cael eu cadarnhau na'u cymeradwyo.
- Cyfrifoldeb y Comisiwn yw gweithredu Penderfyniad y Bwrdd.
- Mae'r Bwrdd Taliadau wedi cytuno ar ei Egwyddorion Llywodraethu a'i ganllawiau ei hun o ran cynnal busnes.
- Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ddarparu cefnogaeth ysgrifenyddol i'r Bwrdd er mwyn iddo allu gweithredu'n effeithiol. Y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac Aelodau sy'n gyfrifol am weithredu Penderfyniadau'r Bwrdd a chynghori Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth ar faterion yn ymwneud â'r Penderfyniad.

## E.2 Tâl uwch-reolwyr

### Egwyddorion

- Dylai lefelau cydnabyddiaeth fod yn ddigonol i ddenu, cadw a chymell uwch-reolwyr o'r safon sy'n ofynnol i redeg y sefydliad, gan roi sylw i faterion ehangach o ran cyflogau a chydnabyddiaeth yn y sector cyhoeddus.

- Dylid bod â gweithdrefn ffurfiol a thryloyw ar gyfer datblygu polisi ar gydnabyddiaeth swyddogion gweithredol ac ar gyfer pennu pecynnau cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r Clerc a chyfarwyddwyr. Ni ddylai unrhyw unigolyn fod yn rhan o broses o benderfynu ar ei dâl ei hun.

## Darpariaethau

- Dylai'r Comisiwn benodi pwyllgor sy'n cynnwys o leiaf dri chynghorwr annibynnol, y dylai un ohonynt fod yn Gadeirydd arno, i roi cyngor ar dâl uwch-reolwyr. Gall cylch gwaith y pwyllgor fod yn ehangach na chynghori ar gydnabyddiaeth ariannol ond at ddibenion y ddogfen hon cyfeirir ato fel y Pwyllgor Taliadau.

- Pan fydd uwch-reolwyr yn ymwneud â chynghori neu gynorthwyo'r Pwyllgor Taliadau, dylid cymryd gofal i gydnabod buddiannau ac i osgoi gwrthdaro rhwng buddiannau.

- Dylai'r Pwyllgor Taliadau sicrhau bod ei gylch gorchwyl, sy'n egluro ei rôl, ar gael i'w weld. Pan gaiff ymgynghorwyr eu penodi mewn cysylltiad â chydnabyddiaeth, dylid sicrhau bod datganiad ar gael yn nodi a oes ganddynt unrhyw gysylltiad arall â'r sefydliad.

- Dylai'r Pwyllgor Taliadau lunio adroddiad blynyddol i'r Comisiwn yn nodi'r gwaith y mae wedi'i wneud.

# Adran F: Cysylltiadau ag Aelodau o'r Senedd

## F.1 Deialog ag Aelodau o'r Senedd

### Egwyddor

- Dylai’r Comisiwn a’r Prif Weithredwr a’r Clerc sefydlu deialog reolaidd ag Aelodau o’r Senedd yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth o amcanion.
- Dylai’r Prif Weithredwr a’r Clerc a’r Llywydd sicrhau bod pob Comisiynydd a chynghorwr annibynnol yn ymwybodol o brif faterion a phryderon Aelodau o’r Senedd.

### Darpariaethau

- Dylai’r Prif Weithredwr a’r Clerc a’r Llywydd sicrhau bod safbwyntiau Aelodau o’r Senedd yn cael eu cyfleu i’r Comisiwn yn ei gyfanrwydd.
- Dylai’r Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac Aelodau gyfathrebu ag Aelodau o’r Senedd drwy amrywiaeth o ddulliau i sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau’r Comisiwn, ac i glywed am unrhyw bryderon a phroblemau sydd gan yr Aelodau o bosibl, ac i ymdrin â hwy.
- Dylai’r Comisiwn ddatgan yn yr adroddiad blynyddol y camau y mae wedi’u cymryd i sicrhau bod y Comisiynwyr yn datblygu dealltwriaeth o farn yr Aelodau am y sefydliad, er enghraifft, drwy gyswllt uniongyrchol wyneb yn wyneb, a thrwy arolygon barn.